

Crynodeb o Gofnodion y Panel Cyngori ar Amaethyddiaeth (AAP) Cyfarfod 10 – 14 Mehefin 2018

Adolygiad o Orchmynion Cyflogau Amaethyddol

Llywodraeth Cymru, Spa Road East, Llandrindod

Yn bresennol

Lionel Walford – Cadeirydd
Peter Rees – Aelod Annibynnol
Steve Hughson – Aelod Annibynnol
Bryan Godsell – UNITE
Ivan Monckton – UNITE
Paddy McNaught - UNITE
Darren Williams – FUW
Will Prichard – NFU
Helen Snow – Geldards

Paula Whitfield – Llywodraeth Cymru
Ryan Davies – Llywodraeth Cymru
Karla Price – Llywodraeth Cymru

Eitem 1 – Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod Mae Paddy McNaught yn ymgymryd â swydd Bryan Godsell fel cynrychiolydd UNITE ac mae Ryan Davies yn cymryd lle Paula Whitfield oherwydd ei bod yn ymddeol.

Eitem 2 – Y Newyddion Diweddaraf gan y Cadeirydd

Rhoddodd y Cadeirydd y newyddion diweddaraf am waith ymchwil Gwybodaeth am y Farchnad Lafur oedd newydd ei ryddhau. Gan bod yr ystadegau a'r data y cyfeirir atynt yn yr astudiaeth ar lefel uchel mae am ofyn am y data craidd gan yr ymgynghorwyr. Bydd y Panel yn gweithio i flaenoriaethu'r negeseuon sy'n rhan o'r gwaith ymchwil ac yn gwneud argymhellion i'r Gweinidog eu hystyried.

Eitem 3 – Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfodydd Diwethaf (9 Ebrill a 24 Ebrill)

Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Eitem 4 - Y Ffordd Ymlaen ar Orchmynion Cyflogau

Pwysleisiodd y Cadeirydd ymrwymiad y Panel unwaith eto bod Gorchmynion Cyflogau yn hollol gyfreithiol, yn gyfredol ac yn uniongyrchol gysylltiedig â'r diwydiant yng Nghymru. Byddai'n anodd cyflawni adolygiad o'r Gorchmynion newydd yn gyflym ac roedd yr amserlen ar gyfer y broses o gynnig ac yna gyflwyno'r deddfwriaeth yn dynn. Mae'n rhaid i'r gwaith ddibynnu ar y data sydd ar gael, llenwi bylchau ble y bo angen, yn ogystal ag ystyried polisïau, ymgynghori ac ystyried gofalus.

Cafodd dau opsiwn ei ystyried ar gyfer y ffordd ymlaen:

- 1) Dechrau'r broses foderneiddio nawr heb gyflwyno Gorchmyn 2019 i newid cyfraddau
- 2) Cynnig Gorchmyn yn anelu at cyn lleied â phosib o newidiadau i Orchmyn 2018, gan gyflwyno dyddiad o'r 1 Ebrill 2019, a dechrau ar gyfnod hwy i gynnig newidiadau manwl a sylweddol i'r Gorchmyn o 2020.

Cytunodd y Panel i fabwysiadu'r dull a amlinellwyd yn Opsiwn 2. Y farn oedd y byddai prosiect moderneiddio hwy yn rhoi digon o amser i fynd drwy'r broses yn fanwl gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus llawn a manwl.

Byddai aelodau annibynnol o'r Panel yn eu swyddi tan 1 Ebrill 2020, ac roeddent yn benderfynol iawn i ddod i gasgliadau ynghylch yr adolygiad erbyn hynny.

Roedd y papur a gyflwynwyd yng nghyfarfod 9 gan yr undebau llafur ar newidiadau i strwythur y Gorchmynion Cyflogau yn sail ddefnyddiol i greu cynigion a phapurau ymgynghori.

Roedd y Panel yn deall yr angen i edrych ar bob darpariaeth arfaethedig yn ofalus ac i gofnodi'r dystiolaeth, y syniadau a'r prosesau gwerthuso y tu ôl i'w penderfyniadau. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal sawl Asesiad Effaith ar bob deddfwriaeth.

Eitem 5 – Materion Cyfreithiol

Bu i Ymgynghorydd Cyfreithiol y Panel egluro rhywfaint ar y materion cyfreithiol oedd yn codi o ran cyflwyno Gorchmyn yn 2019. Bu'r Panel hefyd yn ystyried pa rai oedd eu hangen nawr a pha rai allai fod yn rhan o'r ystyriaethau hirdymor.

Eitem 6 - Papur y Comisiwn gan Economydd Annibynnol

Rhoddodd y Panel ei gymeradwyaeth i'r Cadeirydd gysylltu â'r AHDB i roi cyflwyniad i'r Panel ar yreconomi amaethyddol yng Nghymru i helpu'r Panel yn eu hystyriaethau.

Eitem 7 - Ystyriaethau Cydraddoldeb a Gofynion Cofnodi

Hysbyswyd y Panel o'r angen i ystyried materion cydraddoldeb ac anghenion pawb sydd â nodweddion a ddiogelir ym mhob cynnig ac i adrodd yn ôl ar yr ystyriaethau hynny. Byddai angen rhannu anghenion yr Aseiad Effaith gyda'r Panel.

Eitem 8 – Unrhyw Fater Arall

Rhoddwyd diolch i'r ddau aelod sy'n gadael am eu gwaith caled a dymunodd y Panel yn dda iddynt yn y dyfodol.

Yna daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.